DANGOS PARCH A CHARIAD YN EICH PRIODAS

Nodyn i'r siaradwr:
Mae'r amlinelliad hwn yn trafod penodau 4-6 y llyfr *Making Your Family Life Happy* (*fl*). *Peidiwch,* fodd bynnag, â darllen o'r llyfr yn uniongyrchol i'r gynulleidfa. Defnyddiwch ddeunydd diweddarach o'r cyfeiriadau ychwanegol; fel hyn bydd eich deunydd yn ffres a chyfoes. Agorwch y Beibl yn fynych, a darllenwch ohono'n uniongyrchol fel eich awdurdod

MAE PARCH A CHARIAD YN AGWEDDAU HANFODOL I BRIODAS LWYDDIANNUS (4 mun.)

Mae pawb ohonom bron â chonsýrn am briodas (ein priodas ein hunain neu briodas rhai a garwn); da yw ystyried mor hanfodol yw parch a chariad mewn priodas lwyddiannus (*fl* 40)

Gellir hawlio parch, ond os yw i ddod o galon arall, rhaid ei ennill

Enillodd Iesu barch fel athro drwy ei ddull o ddysgu (Mth 7:28, 29)

Fe ystyriwn ni ran y gŵr ynglŷn â pharch mewn priodas

Dywedir wrth y wraig i barchu'i gŵr; sut gall y gŵr haeddu hyn? (Eff 5:33)

FFYRDD I ŴR O ENNILL PARCH DWFN EI WRAIG (14 mun.)

Drwy arfer penteuluaeth addas (*fl* 41-4)

Ceir enghreifftiau o benteuluaeth cariadus ym mhenteuluaeth Jehofah dros Grist a phenteuluaeth Crist dros y gynulleidfa (Mth 11:29; Heb 10:7; *w*89 5/15 11-13)

Dylai'r gŵr ganlyn yr esiamplau hyn (Eff 5:25-29, 33)

Pan fo'r gŵr yn awdurdodol, gall ymddarostyngiad y wraig iddo fod yn galedi

Os gwrthoda'r gŵr arwain a gwneud penderfyniadau angenrheidiol, mae'n anodd i'r wraig fod yn ddarostyngedig ac efallai y teimla ei gorfodi i gymryd y cyfrifoldeb hyn er mwyn sicrhau fod pethau'n cael eu gwneud

Dylai'r gŵr fod yn gyson a chadarn wrth wneud penderfyniadau ond dylai ystyried teimladau ei wraig (*fl* 43 ¶10)

Drwy fod yn ddarparwr da (*fl* 44-7)

Mae'r gŵr i ddarparu angenrheidiau ei wraig (1Tim 5:8; *fl* 44 ¶12)

Wrth wneud hyn, 'dyw'r dyn ddim i fynd i eithafion a dod yn faterol, gan lusgo'i deulu i'r fagl honno (1Tim 6:7-10)

Rhaid iddo gydbwyso'i ddarparu gyda'r angen mwy hanfodol o ddarparu'n ysbrydol ar gyfer ei deulu (1Tim 6:17-19; *w*83 6/1 18)

Drwy roi parch dyladwy i'w wraig, gan mai hi yw'r llestr gwannaf (1Pedr 3:7; *fl* 47-53)

Mewn perthynas rywiol (*w*83 6/1 21; *fl* 47 ¶18)

Drwy sicrhau glanweithdra personol, neu lendid

Peidio byth â'i thrin yn iselradd dim ond am ei bod hi efallai yn gorfforol wannach (Eff 5:28; *w*89 5/15 13-14; *w*86 8/15 16 ¶12)

Amlygu ymwybyddiaeth o'i gwneuthuriad emosiynol a'i dymuniad i deimlo bod ei hangen, i gael sgwrs, i gael ei chofio, ac i ddweud wrthi y cerir hi (*w*89 7/15 31; *w*83 6/1 20; *fl* 51 ¶24, 53 ¶27)

Ond beth am y wraig? A beth yw lle cariad—y dywedwyd ei fod mor hanfodol?

DYWEDIR WRTH Y GŴR I GARU'I WRAIG, OND RHAID IDDI HI WEITHREDU'N GARIADUS OS YW EF I WNEUD HYN O'I GALON (8 mun.)

Dylai hi fod yn ymgeledd, yn cefnogi'i gŵr yn ei benderfyniadau (*fl* 55-6)

Dylai gwraig ei hyfforddi ei hun i fedru cyflawni ei dyletswyddau fel gwraig (Diar 31:27; *fl* 57-9)

Dylai ofalu am ei hymddangosiad personol, ond cofio mai'r addurn gorau yw cymeriad rhagorol (Diar 31:20, 26, 30; *fl* 59-60)

Mae'r wraig, fel y gŵr, i ymddwyn yn deg ac ystyriol mewn materion rhywiol (Heb 13:4; *w*86 8/15 16 ¶13; *w*81 8/15 13-15; *fl* 60-2)

MAGLAU Y DYLAI'R WRAIG EU HOSGOI OS YW I GAEL EI CHARU (6 mun.)

Mae'r wraig sy'n dibynnu ar wylo er mwyn cael ei ffordd yn colli parch ei gŵr (Barn 14:16, 17; *fl* 62-3)

Mae gwraig gegog yn peryglu'i phriodas ac yn lladd cariad (Barn 16:16; *fl* 63-5)

'Ddylai'r wraig sydd am i'w gŵr sgwrsio â hi ddim ei rwystro drwy ei harferion siarad hi (Preg 3:7; *fl* 65-7)

Rhaid i wraig sydd â'i gŵr yn anghredadun ddim pregethu wrtho'n ormodol ond caniatáu i'w hymarweddiad gymeradwyo'r ffordd Gristionogol (Diar 16:24; 25:11; *w*90 8/15 23; *w*90 2/15 26-7; *fl* 68-9)

Y CARIAD SY'N RHWYMYN PERFFEITHRWYDD MEWN PRIODAS (11 mun.)

Yn y Beibl ceir disgrifiad ysbrydoledig o gariad (1Cor 13:4-8; *fl* 71-6)

Gwnewch i gariad dyfu (*fl* 77-80)

Mae cariad, fel cyhyr, yn cryfhau wrth ei ddefnyddio

Cynyddwch gariad drwy ei rannu (*fl* 78 ¶27)

Mae gwasanaethu'ch cymar yn gwneud i gariad dyfu (*fl* 78 ¶28)

Gyda'r ymddygiad a amlinellir uchod, gall cariad dyfu boed eich cymar yn grediniwr Cristionogol ai peidio (*fl* 80 ¶30)

PARHEWCH I GYNYDDU PARCH A CHARIAD YN EICH PRIODAS (2 mun.)

Wŷr, dangoswch gariad a pharch yn eich priodas (1Pedr 3:8, 9)

Peidiwch â meddwl ei bod yn ddigon i chi dim ond i ddod â'ch cyflog adre

Parhewch i ddyfnhau eich gwerthfawrogiad o'ch gwraig

Ceisiwch anwybyddu ei beiau hi a maddeuwch ei gwendidau (Col 3:12-14)

Wragedd, meithrinwch barch dwfn at eich gŵr

Byddwch yn wir ymgeledd iddo, yn ei gefnogi a'i helpu gyda'i faich

Meithrinwch werthfawrogiad ohono a gweithio i'w wneud yn hapus

Fel hyn, fe fyddwch chi a'r holl deulu'n hapus (Act 20:35)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)